

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/  
Prif Weithredwr GIG Cymru  
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/  
NHS Wales Chief Executive  
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

### Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Caerdydd CF99 1NA  
SeneddPAC@Cynulliad.Cymru

Our Ref: AG/OS/KH

26 Mehefin 2019

### Ymchwiliad i reoli cleifion allanol dilynol ar draws Cymru

Annwyl Mr Ramsay

Yn sgil mynychu cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 10 Gorffennaf 2019, cytunais i wneud y canlynol:

- Llunio rhestr o welliannau y gofynnir i bob bwrdd iechyd eu cyflwyno
- Rhannu adborth gan y Bwrdd Gweithredu Offthalmoleg ar ganlyniadau'r mesurau newydd ar gyfer gofal llygaid
- Rhannu enghreifftiau o ddarnau o waith y mae clinigwyr yn eu harwain fel rhan o'r gwelliannau a ysgogir gan y rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio a'r byrddau arbenigedd cysylltiedig.

Yn gyntaf, fel y disgrifiais yn y sesiwn, rydym wedi cytuno ar gyfres o dargedau, a disgwylir i bob bwrdd iechyd gyflawni'r targedau hyn, gan gyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol i'w systemau er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy. Wrth wneud hyn, disgwyliwn i fyrddau iechyd roi'r cynllun llwybr canlynol ar waith:

**Orthopedig** – lleihau nifer yr apwyntiadau dilynol ar y prif gymalau trwy ganlyniad y mae claf yn ei adrodd a thrwy apwyntiad rhithwir.

**ENT** – defnydd cyson o ganllawiau ar apwyntiadau dilynol sydd wedi'u datblygu i leihau apwyntiadau dilynol cyffredinol.


**Wroleg** – bydd cyflwyno llwybr hunanreoli â chymorth ar gyfer cleifion canser y prostad sefydlog yn lleihau'r angen am apwyntiadau dilynol wyneb yn wyneb rheolaidd.

**Offthalmoleg** – sefydlu'r gwasanaethau yn y gymuned er mwyn i fwyafrif y cleifion glawcoma sefydlog gael eu gweld gan rywun nad yw'n feddyg.

Byddwch chi a'r aelodau wedi nodi bod adroddiad ffurfiol ar yr ystadegau cyntaf ynghylch y mesurau gofal llygaid wedi'i gyhoeddi'r wythnos diwethaf (11 Mehefin 2019). Bydd y rhain yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gweithredu Offthalmoleg ar 10 Gorffennaf 2019. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod adrodd cysgodol cafodd y Bwrdd ddata ym mhob un o'i gyfarfodydd ac mae wedi bod yn gefnogol iawn i ddatblygu'r mesur ac mae wedi arwain y dasg o roi'r mesur ar waith yn lleol. Maent wedi ymrwymo i sicrhau y bydd perfformiad yn gwella ac y bydd y rhai a chanddynt yr angen clinigol mwyaf yn cael blaenoriaeth.

Yn olaf, ceir rhestr o welliannau ynghlwm wrth yr adroddiad hwn, a luniwyd gan fyrdau iechyd mewn ymateb i'r rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio a'r byrdau arbenigedd cysylltiedig.

Yn gywir



**Dr Andrew Goodall CBE**

## Arferion da newydd a dilynol mewn byrddau iechyd

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- **'Gweithredu yn ôl symptomau' (SOS) Orthopedeg** – caiff y claf ei ryddhau o'r ysbyty pan fydd yn feddygol ffit gyda llwybr rhyddhau wedi'i ddiffinio'n glir. Gall y cleifion ffonio am apwyntiad hyd at 12 mis ar ôl cael llawdriniaeth ac fel arfer caiff apwyntiad ei drefnu o fewn 12 wythnos.
- **Proses ar gyfer mireinio atgyfeiriadau Dirywiad Macwlaidd Gwlyb sy'n Gysylltiedig â Henaint (AMD Gwlyb)** – Mae system ar gyfer mireinio atgyfeiriadau'n golygu system lle y caiff atgyfeiriadau newydd eu brysennu gan Optometrydd er mwyn canfod y mathau o gleifion y gellid eu gweld mewn gofal sylfaenol neu pan fo'r atgyfeiriad yn anghyflawn. Mae hyn wedi lleihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol a welir trwy 'fynediad cyflym' (ond mae'r ffigurau'n cynnwys yr holl achosion, ni waeth be fo'r llwybr atgyfeirio a ddilynwyd). Mae oddeutu 50% o gleifion sy'n cychwyn triniaeth ar gyfer AMD gwlyb wedi cael eu cyfeirio gan optometryddion cymunedol fel rhai yr amheuir eu bod yn dioddef o AMD 'Gwlyb'.
- **Protocol dilynol ENT** ynghyd â system 'gweithredu yn ôl symptomau' (SOS) (ceisio cysylltu â system fel 'Patient Knows Best').
- **Rheoli clefyd Parkinson** trwy ddefnyddio apiau symudol i gyfathrebu mewn modd rhithwir â chleifion a lleihau'r angen i weld y claf mewn Adran Cleifion Allanol.
- **Defnyddio technoleg ddigidol** i gynnig cymorth gyda chlefyd llid y coluddyn fel y gellir teithio llai i apwyntiadau mewn Adran Cleifion Allanol.
- **Dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig â henaint (AMD gwlyb)** – darparu pigiadau mewn lleoliad lleol (darparwr ar y stryd fawr) gan nyrsys yn hytrach na meddyg.
- **Dermatoleg** – ymgynghorydd yn bwrw golwg dros ddelweddau digidol mewn modd rhithwir, gan benderfynu wedyn a yw'r claf angen triniaeth ynteu a ellir ei ryddhau.

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

#### Orthopedeg

- **Yr arthroplasti pen-glin achos diwrnod cyntaf** gydag apwyntiad dilynol rhithwir rhannol – caiff yr amser y mae claf yn ei dreulio yn yr ysbyty ar ôl cael arthroplasti pen-glin ei leihau'n sylweddol, gan ryddhau gwelâu ac adnoddau ffisiotherapi. Hefyd, caiff technoleg newydd ei defnyddio fel rhan o'r prosiect pilot hwn yn Ysbyty Glan Clwyd, sy'n gallu canfod i ba raddau y mae cleifion yn gallu symud a pha un a yw'r ymarferion ffisiotherapi'n cael eu gwneud yn iawn, ai peidio.
- **Arthroplasti clun achos diwrnod** – cwblhawyd yr arthroplasti clun achos diwrnod cyntaf ac mae apwyntiad dilynol rhithwir wedi'i drefnu.
- **Arthroplasti rhithwir** – Mae arweinwyr clinigol wedi pennu adolygiad arthroplasti rhithwir ac mae llwybr ar gyfer hyn wrthi'n cael ei ddatblygu, i gychwyn yn ail chwarter 2019.
- **Clinig toriadau esgyrn rhithwir** – Rhoddodd yr ymgynghorwyr toriadau esgyrn glinig brysennu rhithwir ar waith er mwyn cyfeirio cleifion at y llwybrau triniaeth mwyaf

priodol yn hytrach na bod yr holl gleifion yn mynd i'r clinig toriadau esgyrn. Dengys y canlyniadau lai o atgyfeiriadau amhriodol, ac mae'r oedi cyn rhoi triniaeth wedi lleihau.

- **Mesurau Canlyniadau a Adroddwyd gan Gleifion (PROMS)** – Ystyried defnyddio PROMS ar gyfer cluniau a phengliniau orthopedig i hwyluso clinig rhithwir ôl-lawdriniaeth er mwyn lleihau nifer yr apwyntiadau amhriodol a lleihau'r rhestr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol.
- **Clinig ysgwyddau un stop CMATS (Gwasanaeth Asesu a Thrin Cyhyrsgerberbydol Clinigol)** yn y Dwyrain – Newid y llwybr radioleg mewn perthynas ag atgyfeiriadau meddygon teulu ar gyfer sganiau uwchsain o'r ysgwyddau, gyda 2 fis o wasanaeth ar waith. Lleihad yn y galw am wasanaethau radioleg – lleihad yn nifer yr atgyfeiriadau amhriodol – caiff cleifion eu sganio mewn gofal eilaidd mewn modd amserol. Dim ond pan welir arwyddion clinigol y bydd cleifion yn cael archwiliad, a bydd unrhyw archwiliad yn ychwanegol at asesiad clinigol. Mae'r cleifion yn fodlon iawn â'r dull hwn, caiff nifer yr apwyntiadau ar gyfer cleifion eu lleihau a cheir llwybr gwell ar gyfer cleifion – rheoli mwy amserol, a mynediad at glinigau/parcio. Bydd archwiliad iyn cael ei gynnal a'r bwriad yw ymestyn y gwasanaeth i gynnwys cyflyrau cyhyrsgerberbydol eraill, ond bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer hyn.

## Offthalmoleg

- **Cydyniad cleifion ar sail gwybodaeth.** Mae cymorth aml-bwynt ac aml-ddull mewn perthynas â dealltwriaeth claf o 'Beth yw cataract' a'r risgiau a'r manteision cysylltiedig yn cael ei lunio.
- **Cymorth hunanreoli mewn perthynas â gofal ôl-lawdriniaeth yn dilyn llawdriniaeth cataract.** Bydd yn cynnig mynediad i gleifion at wybodaeth fideo/clywedol sy'n ategu'r llyfryn a gawsant yn yr apwyntiad Gofal Llygaid yn yr ysbyty, er mwyn iddynt allu deall yn well beth yw gofal ôl-lawdriniaeth.
- **Mae llwybr "cataract un stop integredig"** sy'n darparu'n syth i'r rhestr bellach wedi'i ymgorffori yn ymarfer craidd yr ardal ganol, yn dilyn profi'r cysyniad. Bydd y profion terfynol ar y cysyniad hwn yn cael eu cwblhau yn ardaloedd y Gorllewin a'r Dwyrain yn ystod Mehefin 2019.
- **Mae dogfennaeth mireinio atgyfeiriadau "sengl"** sydd hefyd yn rhan o'r llwybr cataract integredig wedi'i chreu mewn partneriaeth effeithiol rhwng nyrsys, offthalmolegwyr ac optometryddion cymunedol. Caiff hyn ei gyflwyno o ail chwarter y flwyddyn hon.
- **Ail lygad** – Rhoi llwybr gwell ar gyfer 'ail lygad' ar waith, sy'n darparu gwerth ychwanegol i gleifion ac yn lleihau'r galw am ymweliadau wyneb yn wyneb mewn adrannau cleifion allanol, gan ryddhau lle felly i gleifion eraill yn unol â blaenoriaethau mesurau gofal llygaid.

## Clinigau rhithwir

- **CARTREF – Gofal a gyflwynir gyda thelefeddyginiaeth i gynorthwyo cleifion oedrannus ac eiddil mewn ardaloedd gwledig** – ymgynghoriadau rhithwir ar gyfer cleifion eiddil, oedrannus. Ar gyfartaledd, llwyddwyd i arbed 66 munud o amser teithio

(42 milltir) i gleifion i/o glinigau; byddai mwy nag 83% o gleifion yn argymhell y dull hwn. Hefyd, cafwyd arbedion o ran amser ac arian mewn perthynas â theithiau ymgynghorwyr.

- Mae **clinigau adolygu rhithwir** (Ardal y Gorllewin) ar gyfer monitro cleifion mewn perthynas â biolegaeth ar waith – dros y ffôn neu drwy e-bost, gan leihau unwaith eto yr angen am apwyntiadau adolygu.

## Anadlu

- **Clinig Anadlu Dilydol Rhithwir** – Yn Ysbyty Glan Clwyd, caiff cleifion eu hatgyfeirio ar ôl canfod nodwl (canfyddiad damweiniol fel arfer). Anfonir llythyr at y cleifion yn esbonio y byddant yn cael apwyntiad wyneb yn wyneb a sgan CT arall. Bydd yr apwyntiad hwn yn paratoi'r claf ar gyfer y broses apwyntiadau dilydol rhithwir, pe bai hynny'n briodol. Bydd y cleifion yn parhau i gael sganiau a byddant yn cael eu hadolygu mewn clinig rhithwir; os na fydd unrhyw beth wedi newid, bydd y cleifion yn cael llythyr yn eu hysbysu ynghylch hyn a bydd sgan arall yn cael ei drefnu. Ysgrifennir at y cleifion ar ôl pob sgan. Bydd hyn yn parhau tra y bydd pethau'n aros yr un fath. Llai o apwyntiadau, lleihau'r angen i gleifion fynychu apwyntiad i glywed nad oes unrhyw newid ac y bydd sgan arall yn cael ei drefnu. Lleihau'r pryder i gleifion gan eu bod yn cael gwybod trwy lythyr nad oes unrhyw newid, yn hytrach na gorfod aros am apwyntiad.

## Diabetes

- **Llythyrau apwyntiadau digidol, clinig diabetes y glasoed ifanc** – Gwelir bod nifer fawr o gleifion y clinig ar gyfer y glasoed ifanc yn peidio â mynychu (40% ar gyfartaledd). Gall achosion o beidio â mynychu apwyntiadau ymhlith y garfan hon o gleifion arwain at beidio â chydymffurfio â gofal diabetes ac at gymhlethdodau pellach posibl a allai gynyddu'r angen am adnoddau mewn meysydd eraill, h.y. derbyniadau brys. Mae'r tîm Ardal (Canol) yn bwriadu cyflwyno defnydd o lythyrau digidol ar gyfer y gwasanaeth hwn, gyda'r nod o gael lleihad o 25% yn nifer y cleifion nad ydynt yn mynychu apwyntiadau, erbyn mis Medi 2019.

## Dermatoleg

- **Dilysu apwyntiadau dermatoleg dilydol gan locwm** (Canol). Ar hyn o bryd, dim ond apwyntiadau 'newydd' a gaiff eu dilysu. Gall apwyntiadau dilydol gydag ymgynghorydd locwm gymryd cyhyd ag apwyntiadau 'newydd', a gall hyn effeithio ar effeithlonrwydd y clinig. Mae cynlluniau ar droed i roi proses ddilysu ar waith ar gyfer cleifion dilydol a drosglwyddir i Locwm, er mwyn sicrhau mai ar gyfer yr achosion angenrheidiol yn unig y caiff apwyntiadau eu trefnu.
- Cyflwynwyd **brysbennu ffotograffig – dermatoleg** (Ardal y Gorllewin) sy'n arwain at frysbennu clinigol gwell a phenderfyniadau gwell, a fydd yn cynnwys mynd yn syth at

MOP/prawf, yn syth at glinigwyr dan arweiniad nyrsys ac yn ôl at feddygon teulu gyda chyingor/triniaeth.

## **Pediatreg**

- **System archebu rannol mewn gwasanaethau pediatreg cymunedol (Canol)** – mae cynlluniau ar waith i gyflwyno system archebu rannol mewn gwasanaethau pediatreg cymunedol fel ffordd o haneru'r ôl-groniad o apwyntiadau dilynol erbyn pedwerydd chwarter 19/20, a chael lleihad o 5% yn y gyfradd 'heb fynychu' gyffredinol erbyn diwedd trydydd chwarter 19/20.

## **Canser/ Gynaecoleg**

- **Cathetr Ymbreswylol Parhaol** – Mae Nyrsys Clinigol Arbenigol canser gynaecolegol yn defnyddio cathetrau ymbreswylol parhaol i reoli'r casgliad o hylif mewn cleifion sy'n cael gofal lliniarol. O'r herwydd, nid oes yn rhaid i'r cleifion fynd i'r ysbyty i ddefnyddio draeniau dros dro ac mae'n gwella ansawdd eu bywydau ac yn osgoi teithiau diangen i'r ysbyty a thriniaethau diwedd oes diangen.

## **Gweithredu yn ôl Symptomau (SOS)/Cysylltiadau â Chleifion**

- **Gweithredu yn ôl Symptomau (SOS)** – Symleddio'r broses SOS ar gyfer arbenigeddau perthnasol; rhoddir cytundeb ar waith ar hyn o bryd ar gyfer amserlenni SOS yn ôl arbenigedd.
- **Llinell gymorth i gleifion** – Ardal y Gorllewin – galluogi cysylltiadau a gychwynnir gan gleifion – caniatáu i gleifion gael eu rhyddhau, ond gyda'r gallu i gysylltu â'r gwasanaeth i gael cyngor/cymorth pe bai eu cyflwr yn mynnu hynny heb yr angen i gael eu hailatgyfeirio. Gwasanaeth a gaiff ei arwain yn bennaf gan nyrsys.

## **Gwasanaeth Atgoffa Neges Destun**

- **Gwasanaeth Atgoffa Neges Destun** – Ar hyn o bryd rhoddir gwasanaeth atgoffa neges destun wedi'i uwchraddio ar waith lle y bydd modd i gleifion gael llawer mwy o wybodaeth yn eu neges destun, gyda'r bwriad o allu anfon llythyr digidol at gleifion yn y dyfodol.

## **Rheumatoleg**

- **Brysbennu Rheumatoleg** – (Ardal y Gorllewin) – yn gyntaf trwy gyfrwng CMATS er mwyn sicrhau mai atgyfeiriadau y mae arnynt angen barn/apwyntiad rheumatoleg yn unig a gaiff eu cyfeirio. Brysbennu pellach yn yr adran rheumatoleg ar gyfer clinigau penodol (e.e. synofitis cynnar, clefyd meinwe cysylltiol). Anfon llythyrau cyngor gyda chyingor ynghylch triniaeth/llwybr at feddygon teulu heb yr angen am apwyntiad ymgynghori.

- **Mae ‘system aros am ganlyniadau’** (Ardal y Gorllewin) ar ôl ymgynghoriad cychwynnol gyda rheumatolegydd yn rhoi amser i allu cwblhau profion diagnostig a’u darparu i ymgynghorydd, a all fynd ati wedyn i lunio cynllun trin a/neu ryddhau’r claf yn ôl i ofal sylfaenol, gan leihau’r angen am nifer o apwyntiadau dilynol. Gwneud y gorau o benderfyniadau a wneir mewn swyddfa gan leihau’r angen am adolygiadau aml.

## Cwm Taf Morgannwg

- **Wroleg** – Delweddau cyseineg magnetig aml-barametrig (MpMRI), yn gynnwys yn y llwybr prostad; mae’r dull hwn wedi bod yn llawer gwell am ganfod canser y prostad clinigol arwyddocaol; mae’n lleihau nifer y dynion sy’n cael biopsïau diangen ac yn helpu i wella cywirdeb wrth gymryd biopsïau.
- **Offthalmoleg** – ystyried defnyddio telefeddyginiaeth i asesu cleifion a chanddynt gyflyrau plastig ocwlar ac adolygu atgyfeiriadau Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) mewn modd rhithwir; defnyddio ffotograffwyr meddygol, fel yn y model a roddwyd ar waith yn y maes dermatoleg.
- **Llawfeddygaeth Gyffredinol** – Rhoi’r llwybr colesystectomi cyflym ar waith, gan leihau nifer yr apwyntiadau dilynol diangen.
- **Lleihau apwyntiadau dilynol heb eu trefnu (FUNB)** ar draws pob arbenigedd, yn cynnwys dilysu gweinyddol, adolygu achosion clinigol ac apwyntiadau wyneb yn wyneb.
- **Protocol apwyntiadau dilynol ENT** – gweithredu’n barhaus y protocol apwyntiadau dilynol ac archwilio cydymffurfiaeth.
- **Offthalmoleg** – Rhoi Canolfan Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig (ODTC) gymunedol ar waith.
- **Dermatoleg** – Mae’r dasg o roi gwasanaeth teleddermatoleg ar waith ar y gweill.

## Caerdydd a’r Fro

- **Healthpathways** – Mae 24 o lwybrau gofal wedi’u datblygu ar y cyd â gofal sylfaenol ac eilaidd ac wedi’u cyhoeddi ar Healthpathways, sef ystorfa ar-lein o ganllawiau a llwybrau iechyd clinigol. Mae’r rhain yn canolbwyntio ar reoli cyflyrau gyda Gofal Sylfaenol a cheir canllawiau clir ar atgyfeirio i wasanaethau arbenigol. Mae’r manteision yn cynnwys lleihau apwyntiadau dilynol diangen o ganlyniad i arweiniad ynghylch achosion lle nad oes angen cynnal profion neu pan ellir cael ysbeidiau rhwng profion.
- **Patient Knows Best – Awdioleg** – ateb e-iechyd sy’n grymuso cleifion i reoli eu gofal eu hunain ac yn galluogi gweithwyr proffesiynol i rannu gwybodaeth. Ceir cynlluniau i gyflwyno hyn yn ehangach ymhlith arbenigeddau eraill ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.
- **Ailgynllunio llwybr Canser y Prostad** - Datblygodd tîm amlddisgyblaethol llwybr newydd a oedd yn anelu at leihau’r amser aros rhwng yr atgyfeiriad a’r driniaeth er mwyn lleihau potensial unrhyw niwed y gellir ei osgoi a lleihau’r costau a oedd yn gysylltiedig â phroffion diagnostig osgoadwy. Newidiwyd trefn y profion diagnostig er mwyn i’r cleifion gael eu sgan cyn eu biopsi; roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl i dargedu rhan arbennig o’r prostad yn ystod y biopsi ar y cynnig cyntaf, yn hytrach na gorfod ailadrodd y driniaeth.

- Dechrau **rheoli clefydau cronig** yn y gymuned, yn hytrach na thrwy broses apwyntiadau dilynol, gan symud gofal iechyd o ganolfannau gofal eilaidd a thrydyddol i'r gymuned.
- **Clinigau orthopedig rhithwir** – nid yw 95% yn dychwelyd am apwyntiad dilynol. Caiff rhwng 7,000 ac 8,000 o gleifion y flwyddyn eu rheoli trwy apwyntiadau dilynol nad ydynt yn rhai 'wyneb yn wyneb'. Ceir cynlluniau i gyflwyno hyn yn ehangach ar draws y sefydliad mewn nifer o arbenigeddau eraill. System PROMS ar waith.

## Bae Abertawe

- **Offthalmoleg – Cyn-asesiad Un Stop – Clinigau Meddygon** – Datblygwyd proses beilot gychwynnol er mwyn creu llwybr ar gyfer atgyfeiriadau Cataractau – yn dilyn cyflwyno system beilot ar gyfer 'trefniadau clinigol â blaenoriaeth' (wedi'i chyflwyno bellach, Mesurau Gofal Llygaid R123). Lleihau'r angen i fynd i glinigau meddygon mewn adrannau cleifion allanol o safbwynt TDABC (Time-Driven Activity-Based Costing) ac amser gwirioneddol gyda'r meddyg. Mae angen ymdrin â materion yn ymwneud â dulliau o oresgyn problemau logistaidd. Byddai lleoli pob clinig yn yr un lle yn fwy delfrydol ar gyfer sicrhau arbedion effeithlonrwydd pellach.
- **Sesiynau delweddu rhithwir** ar gyfer atgyfeiriadau newydd yn ymwneud â retina diabetig – Mae cleifion yn mynychu clinigau delweddu, mae meddyg yn edrych ar y delweddu mewn modd rhithwir, caiff 75% eu rhyddhau ac felly ni fyddant yn gwastraffu apwyntiad mewn clinig meddyg.
- **Clinigau AMD Timau Amlddisgyblaethol** – adnoddau presennol o ran orthoptyddion a nyrsys yn adolygu ac yn rhoi pigiadau.
- **ENT** – Gofynnwyd am fuddsoddi ymhellach mewn gweithlu anfeddygol er mwyn cynnal gwasanaeth 52 wythnos heb unrhyw gymorth gan feddyg. Cyflwynwyd **atgyfeiriadau uniongyrchol i Awdioleg** ym mis Awst 2018.
- **Adolygiad rhithwir/llythyr** ar gyfer apwyntiadau dilynol canser y prostat sefydlog a Patient Knows Best.

## Hywel Dda

- **Lleihau'r rhestr aros FUNB a dilysu clinigol yn y maes gynaeoleg – Er mwyn lleihau'r niferoedd sydd ar y rhestr aros ar gyfer apwyntiadau dilynol**, cyflwynwyd protocol clinigol y cytunwyd arno ar gyfer pob cyflwr gynaeolegol anfalaen trwy ddefnyddio canllawiau cenedlaethol, er mwyn sicrhau dull cyson a lleihau amrywiad clinigol gyda'r tîm clinigol ar draws pob safle. Mae effaith y newidiadau wedi arwain at **leihad o 69%** yn y rhestr aros FUNB dros gyfnod o 20 mis.
- **Hunanreoli** – mae'r gwasanaeth anadlu'n cymryd rhan mewn astudiaeth beilot gyda'r porth dinasyddion Patient Knows Best i archwilio ffyrdd eraill o reoli gofal dilynol ac adolygiadau parhaus o gleifion fel dull amgen i asesuadau wyneb yn wyneb traddodiadol mewn clinigau.



## **Powys**

**Gwasanaeth AMD Gwlyb** – Mae Powys wedi bod yn cynnig gwasanaeth AMD Gwlyb un stop ers dros dair blynedd. Darperir y gwasanaeth yn Aberhonddu a chaiff ei arwain gan ymgynghorydd offthalmolegol sy'n mynychu dan drefniant lefel gwasanaeth o Ymddiriedolaeth Dyffryn Gwy. Rydym yn darparu gwasanaeth 'safon aur' lle y caiff cleifion eu hasesu, eu cwnsela a chychwyn eu triniaeth ar yr un diwrnod. Fel rhan o'r driniaeth bydd yr holl bigiadau dilynol yn cael eu gwneud o fewn canllawiau a thargedau'r Coleg Brenhinol (h.y. o fewn 4 wythnos i'r driniaeth olaf). Cyflwynir y gwasanaeth gan dîm amlddisgyblaethol o staff meddygol, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd (Optometryddion) a staff nyrsio. Caiff Optometryddion eu hyfforddi ar y safle i roi pigiadau. Mae'r model hwn yn elwa i'r eithaf ar allu ymgynghorwyr ac yn lleihau amseroedd aros ac apwyntiadau niferus ar gyfer cleifion. Mae oddeutu 150 o gleifion a oedd cyn hyn yn gorfod teithio y tu allan i'r sir i gael eu triniaeth wedi cael dychwelyd i'w hardal eu hunain a bellach maent yn cael gwasanaethau'n lleol ym Mhowys. Caiff archwiliad blynyddol ei gynnal, a hefyd cynhelir arolygon boddhad cleifion yn rheolaidd – mae'r arolygon hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae cyfleoedd yn cael eu datblygu i gynorthwyo staff nyrsio cleifion allanol i gael hyfforddiant i roi pigiadau, er mwyn ymestyn mwy fyth ar y gwasanaeth a hwyluso gwasanaeth lleol mwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer ein trigolion.